Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Hedd Wyn

Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 4SE

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Bro Hedd Wyn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Bro Hedd Wyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 64 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 44 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 15.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 86.4% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2000 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/02/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Hedd Wyn yn gymuned ddysgu gynhwysol, gofalgar a chlòs lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarn â'r disgyblion, gan feithrin ymddiriedaeth a pharch sy'n hybu ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod ymroddgar sy'n rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y ddarpariaeth. Gyda chefnogaeth tîm o staff cydwybodol, mae hi'n sicrhau bod gwerthoedd craidd yr ysgol yn treiddio drwy holl agweddau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff yn darparu profiadau ysgogol sy'n hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y disgyblion ac adalw eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol, yn enwedig wrth fodelu iaith raenus a hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r defnydd dychmygus a phwrpasol o dechnoleg ddigidol a ddefnyddir gan staff i hybu llafaredd disgyblion. O'r oedrannau ieuengaf, mae disgyblion yn defnyddio ystod dda o dechnegau i fynegi eu syniadau'n hyderus, ac wrth symud drwy'r ysgol, maent yn mireinio'u medrau'n gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu hyder, medrau cydweithio a datblygu medrau siarad cadarn.

Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi datblygiad medrau darllen, ysgrifennu, mathemateg a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Nid yw'r profiadau dysgu a ddarperir gan staff yn herio'r disgyblion, yn enwedig y rhai hynaf, yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r pennaeth a'r staff.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod y prosesau gwerthuso yn canolbwyntio'n  well ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

A2 Darparu profiadau dysgu sy'n herio dysgu'r disgyblion yn gyson, yn enwedig ar gyfer y rhai hynaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus, gefnogol a chynhwysol sy'n gosod bri ar hybu lles disgyblion a darparu profiadau dysgu ysgogol a hwyliog. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ffurfio perthnasoedd gweithio effeithiol â disgyblion sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt ofid neu bryder ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal a gânt. O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf ohonynt at eu dysgu yn gadarnhaol, maent yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r amgylchedd clòs a bugeiliol yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i feithrin eu lles a gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn ac ymroddgar ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni'i hun ac eraill ac mae hi wedi rhannu'r disgwyliadau hyn yn bwrpasol gyda staff a chymuned yr ysgol. Mae'n cael ei chefnogi gan dîm o staff brwdfrydig a chydwybodol sy'n cydweithio'n ddiwyd er mwyn cefnogi disgyblion yn eu dysgu ac i sicrhau bod gwerthoedd cyson yn treiddio drwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn fwriadus ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn dda. Mae staff yn esbonio gofynion tasgau yn glir ac yn modelu iaith, gan gynnwys terminoleg sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gwahanol feysydd dysgu, yn effeithiol. Mae staff, ar y cyfan, yn defnyddio ystod dda o ddulliau holi treiddgar sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach a gwneud cysylltiadau defnyddiol yn eu dysgu. Er hyn, nid yw staff yn darparu profiadau dysgu sy'n herio disgyblion yn ddigon cyson yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer y rhai ar frig yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda a sut maent yn gallu gwella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth ac yn gwella eu dysgu yn hyderus. Yn gyffredinol, nid yw'r adborth bob tro'n cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion wella eu gwaith, fel mewn agweddau penodol o fathemateg.

Mae staff yn darparu profiadau yn yr ardaloedd dysgu y tu fewn a thu allan sy'n tanio dychymyg disgyblion ac yn adeiladu ar eu chwilfrydedd naturiol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn ymgysylltu'n frwdfrydig ac yn ymgolli'n llwyr yn eu profiadau. Mae'r disgyblion yn archwilio syniadau a datrys problemau yn frwdfrydig. Maent yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau ac yn gwneud defnydd da o adnoddau i gefnogi eu dysgu. Dros amser, mae'r ddarpariaeth yn hybu llawer o ddisgyblion i ddatblygu medrau dysgu annibynnol cadarn, gan gynnwys gwytnwch a dyfalbarhad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus o oedran ifanc. Maent yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio geirfa fwyfwy aeddfed wrth symud drwy'r ysgol. Maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau ac yn ymhelaethu ymhellach pan mae angen eglurhad neu gefnogi barn gyda rheswm. Mae athrawon yn rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion ac yn modelu iaith raenus ar eu cyfer yn llwyddiannus. Mae staff yn darparu gweithgareddau pwrpasol, fel cyfleoedd i ddisgyblion actio a chwarae rôl, sy'n cefnogi'r rhan fwyaf i ddatblygu medrau cyfathrebu cadarn dros amser.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael adnabyddiaeth gynnar o seiniau llythrennau ac yn dechrau eu cyfuno'n fedrus i ddarllen geiriau cyfarwydd a llai cyfarwydd yn gywir. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu rhuglder ac yn darllen ar goedd yn hyderus. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr testunau ac yn mynegi eu barn yn glir am gymeriadau, digwyddiadau a syniadau yn y llyfrau maent yn eu darllen.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae ystod dda o brofiadau ymarferol, fel ffurfio llythrennau mewn clai ac ewyn, yn ennyn diddordeb y disgyblion ieuengaf yn bwrpasol ac yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar llawer ohonynt yn fedrus. Maent yn adeiladu ar y medrau cynnar yn briodol ac yn mynd ati i lunio testunau syml, fel llythyrau o ddiolch neu ddisgrifiadau byr, gan ddefnyddio adnoddau cefnogi addas, lle bo'n berthnasol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n fwy annibynnol ac yn defnyddio ffurfiau a phatrymau iaith fwy cymhleth. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau yn hyderus. Maent yn cyfuno cyfres o frawddegau yn naturiol ac yn defnyddio ansoddeiriau ac idiomau perthnasol i gyfoethogi eu testunau a chynnal diddordeb y darllenydd. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn briodol ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. O oedran ifanc, maent yn adnabod patrymau, yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir ac yn cyfrifo'n hyderus. Erbyn brig yr ysgol, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod eang o gyd-destunau ac yn ymateb yn gadarn i broblemau mathemategol. Dros amser, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol cadarn. Mae'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynllunio'n ofalus gan athrawon yn blaenoriaethu datblygu eu medrau mewn cyd-destunau pwrpasol a defnyddiol, sy'n cefnogi'r dysgu'n gelfydd.

## Ciplun: Defnyddio technoleg i ddatblygu medrau siarad disgyblion

Mae staff yn gwneud defnydd pwrpasol a dychmygus o dechnoleg i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion o oedran ifanc. Mae'r disgyblion ieuengaf yn recordio clipiau digidol yn annibynnol i gofnodi eu hymatebion i weithgareddau ymarferol, ac yn ychwanegu troslais ac anodiadau i egluro eu dysgu. Wrth greu modelau o'r sgerbwd, er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa newydd a heriol fel 'hwmerws' a 'penglog', gan gyfleu gwybodaeth yn glir a hyderus. Wrth symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn adeiladu ar y profiadau hyn yn fedrus. Mae'r disgyblion hŷn yn ymgymryd â rolau fel newyddiadurwyr, gan recordio cyfweliadau ac adroddiadau byr sy'n defnyddio iaith fanwl gywir. Maent hefyd yn defnyddio technoleg sgrin werdd i greu teithiau rhithiol, megis ymweliad â Yr Ysgwrn, ac yn cyflwyno gwybodaeth sy'n ystyried eu cynulleidfa'n fedrus. Trwy werthuso recordiadau eu hunain, maent yn mireinio eu medrau llafar ac yn gwneud gwelliannau ystyrlon i'w gwaith. O ganlyniad i'r gyfres o brofiadau estynedig hyn, mae disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus, yn defnyddio geirfa gyfoethog ac yn cydweithio'n effeithiol i gyflwyno syniadau'n glir ac yn bwrpasol.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm eang ac yn ystyried cyd-destun lleol a Chymru yn briodol i ddisgyblion. Maent yn defnyddio'r cyd-destun hwn yn fedrus ar gyfer datblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion. Er enghraifft, mae artist lleol yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol i greu dehongliadau trawiadol tri dimensiwn o'r 'Gadair Ddu'. Mae profiadau allgyrsiol, fel y clwb canu a chlwb yr Urdd, yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u treftadaeth yn dda. Maent yn gwerthfawrogi eu cynefin ac mae ganddynt falchder yn eu Cymreictod. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gwerthoedd moesegol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Mae sesiynau cyd-addoli, er enghraifft, yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fyfyrio ar eu teimladau a myfyrdodau eu hunain.

Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i ymgymryd â rolau arwain ac maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae'r 'Trawsnewidiwyr', er enghraifft, yn cefnogi eu cyd-ddisgyblion iau wrth ddysgu a chwarae yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn datblygu medrau gwerthfawr fel cydweithio, dangos empathi ac ysgwyddo cyfrifoldeb, yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn cynnwys ystod dda o randdeiliaid wrth ystyried tystiolaeth, fel arsylwi gwersi a dadansoddi deilliannau holiaduron. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a rhai meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau gwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer monitro perfformiad staff. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol yn cefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau staff yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ynghyd ag anghenion datblygu'r staff yn unigol a'r ysgol yn ehangach.

Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr angerddol a chadarn dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cynnig cefnogaeth gref i'r pennaeth a'r staff ymhob agwedd o waith yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026